Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Sesiwn Holi ac Ateb o Weminar 'Paneli REF 2029 – ymgeisio i fod yn aelod o banel', ddydd Llun, 3 Mawrth 2025 – 14.00-15.00

## Gweld sleidiau'r weminar

## Cwestiynau'r gynulleidfa

### I ba raddau y mae Medr yn annog prifysgolion yng Nghymru i helpu staff i ymgeisio drwy sicrhau bod amser ac adnoddau priodol ar gael?

Mae Medr wedi trafod y cymorth y gallai sefydliadau ei roi i'w staff mewn cyfarfod diweddar o'n Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi y mae uwch-arweinwyr sefydliadau'n ei fynychu. Felly, rydym yn ymwybodol bod rhai sefydliadau wedi egluro'r cymorth y maent yn ei roi i'w staff, er enghraifft rhoi absenoldeb sabothol i'r rhai sydd wedi ymgymryd â rolau ar baneli, neu lenwi swyddi addysgu dros dro.  Mae rhai sefydliadau wedi rhoi gwybod i ni eu bod yn aros am ganlyniadau prosesau recriwtio cyn cytuno ar y cymorth penodol y byddant yn ei roi. Byddem hefyd yn argymell siarad â'ch rheolwr llinell os oes gennych ddiddordeb mewn ymgeisio am rolau er mwyn cael gwybod pa gymorth a fyddai ar gael gan eich sefydliad.

### Mewn cais i fod yn aelod o banel, a fyddech yn pwysleisio eich arbenigedd penodol mewn uned asesu neu, fel arall, y gallu i ymdrin â'r maes yn ehangach?

Pan gaiff y paneli eu ffurfio, rhoddir ystyriaeth i ddod ag aelodau ynghyd sy'n cynnig ehangder a dyfnder o ran arbenigedd disgyblaethol. Rydym yn chwilio am y ddau fath o arbenigedd a byddem yn argymell rhoi manylion penodol am eich meysydd cryfder wedi'u cysylltu'n glir â'r meini prawf. Er mwyn gwneud cais gwych, dylech fod yn benodol ynglŷn â'ch arbenigedd gan gynnwys yr hyn sydd wedi eich ffurfio chi a'r ffordd rydych chi wedi ffurfio pobl eraill. Dyma rai awgrymiadau ychwanegol:

- Esboniwch pam rydych chi'n gweddu'n dda i'r rôl a pham mae eich arbenigedd yn berthnasol
- Sicrhewch fod eich ymateb yn cyfeirio'n uniongyrchol at yr hyn sydd wedi cael ei ofyn. Mae'r term 'perthnasedd' yn y cwestiwn yn golygu esbonio pam mae'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi yn berthnasol i'r rôl; er mwyn dangos yn glir pam mae gennych ddiddordeb yn y rôl a pham eich bod yn addas ar ei chyfer.
- Rhowch enghreifftiau go iawn. Nid yw teitl eich rôl yn ddigon i ni ddeall beth yn union rydych chi wedi'i wneud, beth rydych chi wedi'i gyflawni, beth rydych chi wedi'i ddysgu, a sut y bydd hyn yn llywio'r ffordd y byddwch yn mynd ati i gyflawni'r rôl hon.
- Peidiwch â rhestru popeth rydych chi wedi'i wneud; dewiswch eich profiad mwyaf perthnasol. Esboniwch pam mae'n bwysig, yr hyn y gwnaethoch ei ddysgu, a'r hyn y byddech yn ei gynnig i'r rôl.
- Dim ond y testun a roddir gennych y bydd y sgorwyr yn gallu ei sgorio; ni allwn ddehongli'r hyn y gallai ei olygu mewn perthynas â'r gofynion. Byddwch yn benodol!

- Ni fydd y sgorwyr yn mynd ar drywydd unrhyw beth y byddwch yn cyfeirio ato ar wahân, felly dylech gynnwys popeth y mae angen i chi ei ddweud ar y ffurflen ei hun.

**Wrth raddio allbwn, a oes rhaid rhoi nodiadau ysgrifenedig i esbonio neu amddiffyn penderfyniad?**

Ni allwn ateb y cwestiwn hwn gan y bydd ffyrdd o weithio a cham gosod meini prawf y paneli'n cael eu datblygu dan oruchwyliaeth y Prif Baneli ar ôl iddynt gael eu penodi.

**A allwch ddweud mwy wrthym am y broses ymgeisio? Ai dim ond llenwi'r ffurflenni y bydd angen ei wneud, neu a fydd unrhyw gyfweliadau, tasgau, neu asesiadau pellach?**

Un ffurflen gais sydd ar gyfer yr holl rolau; ni fydd yr ymgeiswyr yn cael cyfweliadau ac ni fydd gofyn iddynt gwblhau unrhyw asesiadau pellach.

Mae gan bob rôl ei thudalen a'i ffurflen gais ei hun. Dylech gwblhau'r dudalen ar gyfer pob rôl yr hoffech gael eich ystyried ar ei chyfer. Os nad oes gennych ddiddordeb mewn rôl, gadewch y dudalen honno'n wag.

Cam recriwtio ar gyfer y cam gosod meini prawf yw hwn ac, er ein bod yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o banelwyr yn aros ar gyfer y cam asesu, bydd cylch recriwtio pellach ar gyfer y cam asesu.

**O safbwynt cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a fyddai angen i mi ymestyn fy niwrnod gwaith er mwyn cyflawni'r dyletswyddau? A oes modd bod yn aelod o banel REF heb orfod cymryd cam o'r fath?**

Er bod yr ymrwymiad amser ar gyfer rolau ar baneli yn sylweddol, bydd y llwyth gwaith yn amrywio rhwng rolau a phaneli.

Wrth i ni nesáu at y cam asesu, bydd tîm REF yn parhau i adolygu'r disgwyliadau o ran llwyth gwaith. Bydd dealltwriaeth gliriach o'r ymrwymiadau amser ar ôl i dîm REF gael data ar 'siapiau'r cyflwyniadau' drwy'r 'Arolwg o Fwriad i Gyflwyno' yn 2027. Bydd tîm REF yn gweithio gyda'r paneli ar y cam meini prawf er mwyn iddynt allu cynllunio i recriwtio ar gyfer y cam asesu. Caiff yr amcangyfrifon o lwyth gwaith eu hystyried er mwyn sicrhau y caiff cyfrifoldebau eu dosbarthu'n deg ac yn dryloyw rhwng y paneli.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi siarad â'ch rheolwr llinell am y cymorth a all fod ar gael er mwyn eich galluogi i gymryd rhan mewn ffordd sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

**A ellid egluro'r taliadau gan y bydd hyn yn ffactor wrth i ymgeiswyr wneud penderfyniadau?**

Mae gwybodaeth ar gael o wefan REF 2029 [REF 2029 main and sub-panel recruitment – REF 2029]

Telir ffi i aelodau o baneli am gyflawni eu rôl drwy gydol y REF:

- **Cadeiryddion is-baneli –** cyfanswm o £18,000: £6,000 ar y cam meini prawf a £12,000 ar y cam asesu
- **Dirprwyon is-baneli –** cyfanswm o £13,500: £4,500 ar y cam meini prawf a £9,000 ar y cam asesu
- **Aelodau o is-baneli –** cyfanswm o £10,000: £3,334 ar y cam meini prawf a £6,666 ar y cam asesu
- **Arbenigwyr ar y prif baneli** – cyfanswm o £18,000: £6,000 ar y cam meini prawf a £12,000 ar y cam asesu.

**A oes unrhyw ddogfennau manwl sy'n nodi'r hyn sy'n ddisgwyliedig ar gyfer pob rôl?**

Mae'r holl wybodaeth am rolau ar baneli REF a'r broses ymgeisio i'w gweld ar wefan REF 2029: [REF 2029 main and sub-panel recruitment – REF 2029]

**Gan bwy y dylem gael cefnogaeth cyn ymgeisio yn ein sefydliadau; ai dim ond ein rheolwr llinell?**

Er mai proses recriwtio agored yw hon, rhaid i chi gael cefnogaeth eich sefydliad cyn ymgeisio. Rydym yn argymell siarad â'ch rheolwr llinell a'r Deon Ymchwil; gallwch hefyd gysylltu â Rheolwr REF eich sefydliad i gael rhagor o wybodaeth am y broses er mwyn sicrhau cefnogaeth i'ch cais.

**A allwch gadarnhau bod y rolau ar agor i bob aelod o staff, yn seiliedig ar sgiliau/ffurflen gais wrth gwrs, ac nad ydynt wedi'u cyfyngu i staff academaidd yn unig?**

Mae'r rolau ar agor i bob aelod o staff sydd â phrofiad sy'n bodloni gofynion y ffurflen gais, ac nid ydynt wedi'u cyfyngu i staff academaidd yn unig.

Mae'r rolau arbenigol ar y prif baneli ar agor i bob aelod o staff sydd â phrofiad sy'n bodloni gofynion y ffurflen gais. Rydym yn awyddus i glywed gan unigolion ag arbenigedd amrywiol sy'n gallu cynnig safbwyntiau unigryw i'r paneli. Mae hyn yn cynnwys staff proffesiynol a thechnegol sy'n cyfrannu at waith ymchwil, yn ogystal â'r rhai sydd â phrofiad y tu hwnt i'r byd academaidd, fel y rhai sy'n ymwneud â gwaith polisi, sydd â phrofiad yn y gymuned neu sydd â phrofiadau bywyd yn ogystal â'r rhai sydd â dealltwriaeth o amrywiol arferion ymchwilio, allbynnau ac arferion ymgysylltu. Gall ymgeiswyr sydd ag arbenigedd penodol mewn meysydd fel safonau rhyngwladol; pobl, diwylliant a'r amgylchedd; effaith; neu waith ymchwil rhyngddisgyblaethol—lle nad yw'r arbenigedd yn cyd-fynd yn uniongyrchol â disgyblaeth neu uned asesu benodol—ymgeisio am rôl arbenigol ar brif banel.

Mae rolau aelodau o is-baneli ar agor i ymchwilwyr sydd wrth eu gwaith yn y ddisgyblaeth/uned asesu honno. Gall yr ymgeiswyr hyn hefyd gynnig arbenigedd ychwanegol mewn meysydd fel comisiynu, cymhwyso neu ddefnyddio gwaith ymchwil, yn ogystal ag arbenigedd mewn effaith, ymgysylltu, a phobl, diwylliant a'r amgylchedd.

Ar gyfer y cam asesu, byddwn yn recriwtio aseswyr ym meysydd ymgysylltu ac effaith a phobl, diwylliant a'r amgylchedd i gefnogi'r is-baneli pan fydd angen. Mae'n bosibl

na fydd yr ymgeiswyr hyn yn academyddion sydd wrth eu gwaith ond y byddant yn arbenigo mewn asesu'r elfennau hyn.

Rydym yn annog ymgeiswyr o bob cefndir i ymgeisio, hyd yn oed os nad ydych yn sicr eich bod yn bodloni pob maen prawf a restrir. Mae gwaith ymchwil yn dangos bod rhai grwpiau yn llai tebygol o ymgeisio. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd menywod ac unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn gyndyn o ymgeisio oni bai eu bod yn bodloni pob pwynt. Er mwyn lleddfu hyn a meithrin amrywiaeth, bydd y sgorwyr yn ystyried y meini prawf mewn ffordd hyblyg.

**Ai dim ond ymarferwyr sy'n gallu ymgeisio am rôl arbenigwr mewn defnyddio, cymhwyso a manteision ehangach gwaith ymchwil?**

Nid dim ond ymarferwyr sy'n gallu ymgeisio am y rôl hon. Rydym yn annog unigolion ag arbenigedd amrywiol sy'n gallu cynnig safbwyntiau unigryw yn y meysydd canlynol: gwaith ymchwil rhyngwladol; pobl, diwylliant a'r amgylchedd; defnyddio, cymhwyso a manteision ehangach gwaith ymchwil; a gwaith ymchwil rhyngddisgyblaethol.

- **Arbenigwyr rhyngwladol –** profiad o arwain gwaith ymchwil mewn o leiaf un wlad y tu allan i'r DU. Byddant yn sicrhau bod y meini prawf asesu'n adlewyrchu safonau rhyngwladol
- **Arbenigwyr mewn pobl, diwylliant a'r amgylchedd** – profiad o arwain a chyflawni mentrau sy'n creu diwylliannau cadarnhaol ac amgylcheddau cefnogol
- **Arbenigwyr mewn defnyddio, cymhwyso a manteision ehangach gwaith ymchwil** – profiad o ddefnyddio gwaith ymchwil yn y sector preifat, y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector. Byddant yn sicrhau y caiff effaith gwaith ymchwil ei hasesu'n deg
- **Arbenigwyr amlddisgyblaethol –** profiad o arwain a defnyddio gwaith ymchwil rhyngddisgyblaethol. Byddant yn sicrhau y caiff gwaith ymchwil rhyngddisgyblaethol ei asesu'n deg ac yn gweithio'n agos gyda phaneli eraill i gynnal cysondeb.

**Os oes gen i ymrwymiad i brosiectau ymchwil eraill, yn ogystal â'm hymrwymiadau gwaith, sut y dylwn daro cydbwysedd rhwng y prosiectau ymchwil hyn a'r ymrwymiad REF?**

Byddem yn eich annog i drafod gyda'ch rheolwr llinell eich ymrwymiadau gwaith a sut y gallent ryngweithio â'ch ymrwymiadau REF. Bydd gan sefydliadau eu polisïau eu hunain o ran y cymorth y gallant ei roi, er enghraifft llenwi swydd dros dro.

**A all ymgeisydd ymgeisio am fwy nag un rôl (er enghraifft, aelod o is-banel, aelod o brif banel sy'n arbenigo mewn defnydd o waith ymchwil, aelod o brif banel sy'n arbenigo mewn pobl, diwylliant a'r amgylchedd, neu arbenigwr rhyngddisgyblaethol?)**

Gallwch ymgeisio am fwy nag un rôl. Un ffurflen gais sydd, ac mae'n cynnwys adrannau ar gyfer pob un o'r rolau. Mae gan bob rôl ei thudalen a'i ffurflen gais ei hun. Dylech gwblhau'r dudalen ar gyfer pob rôl yr hoffech gael eich ystyried ar ei chyfer. Os nad oes gennych ddiddordeb mewn rôl, gadewch y dudalen honno'n wag.

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Cofiwch deilwra eich cais yn unol â'r rolau penodol y mae gennych ddiddordeb ynddynt.

Cam recriwtio ar gyfer y cam gosod meini prawf yw hwn ac, er ein bod yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o banelwyr yn aros ar gyfer y cam asesu, bydd cylch recriwtio pellach ar gyfer y cam asesu.

**A allech ymhelaethu ar amrywiaeth ar y paneli o ran cam gyrfa ac ymchwilwyr gyrfa gynnar? E.e., ar ba gam y dylem ymgeisio? Ydych chi'n disgwyl i aelod o banel fodloni meini prawf penodol mewn perthynas ag allbwn/effaith gwaith ymchwil ac ati?**

Rydym yn awyddus i ffurfio paneli sy'n dod â chymysgedd o sgiliau, arbenigedd a chefndiroedd, gan gynnwys camau gyrfa, ynghyd. Rydym yn cydnabod y daw safbwyntiau ymchwil gwerthfawr o amrywiaeth eang o lwybrau a chamau gyrfa ac rydym yn annog ceisiadau sy'n adlewyrchu ystod lawn o brofiadau proffesiynol ac academaidd. Anogir ymchwilwyr gyrfa gynnar i ymgeisio os oes gennych brofiad sy'n cyd-fynd â'r gofynion, hyd yn oed os nad ydych yn bodloni'r holl feini prawf.

**Pa mor hir yw'r broses asesu?**

Rydym yn amcangyfrif y bydd angen i aelodau o baneli ymrwymo tua 40 i 60 diwrnod drwy gydol yr ymarfer. Bydd hyn yn dibynnu ar y panel a'ch rôl arno, a'r cam y cewch eich penodi iddo. Bydd crynodiad yr ymrwymiad amser yn amrywio drwy gydol y REF ac rydym yn disgwyl iddo gael ei rannu'n draean ar gyfer y cam gosod meini prawf (a fydd yn para tan fis Mehefin 2026) a dau draean ar gyfer y cam asesu (a fydd yn para tan fis Mawrth 2030, gan gynnwys paratoi adroddiadau).

**Rhagor o Wybodaeth**

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cais, cysylltwch ag info@ref.ac.uk gan ddefnyddio'r pwnc 'Recriwtio aelodau o baneli arbenigol'.

Mae rhagor o adnoddau, gan gynnwys recordiadau o sesiwn wybodaeth tîm REF ar ymgeisio i fod yn aelod o banel, ar gael o Resources – REF 2029.

Os bydd gennych ymholiadau ynglŷn â REF 2029 sy'n ymwneud â'r sector addysg uwch yng Nghymru, cysylltwch ag ymchwil@medr.cymru.